**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/TJ

13 Mehefin 2019

Annwyl Mick

**Ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad**

Pan roddais dystiolaeth i'ch pwyllgor ar 7 Mai, addewais y byddwn yn rhoi gwybodaeth fanylach i chi am y cyfeiriad polisi arfaethedig o ran ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Byddwn yn croesawu barn eich Pwyllgor ar y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at ddarllen, ac ymateb i'ch adroddiad Cyfnod 1 dros yr wythnosau nesaf.

I'ch cynorthwyo wrth ystyried y mater, mae'r wybodaeth a ganlyn yn ddiweddariad ar y gwaith a wnaed gan fy swyddogion, a fu'n trafod â Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Ystyriodd Comisiwn y Cynulliad y mater hwn yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin. Er bod cytundeb eang ar ddull gweithredu arfaethedig, cydnabu'r Comisiwn hefyd bod angen parhau â thrafodaethau â'r Cwnsler Cyffredinol, ac fod angen ystyried safbwyntiau eich Pwyllgor chi a'r Pwyllgor Cyllid.

Nodir y trefniadau presennol ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol a'i atebolrwydd a rôl Pwyllgor y Llefarydd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Rwy'n rhagweld y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn cyflwyno gwelliannau i Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a fydd, yn eu tro, yn


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

diwygio'r darpariaethau yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Disgwyliaf y bydd barn y Comisiwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau hyn gan y Cwnsler Cyffredinol. Mae manylion pellach o ran y modd y gweithredir y trefniadau newydd o ran ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad yn gweddu'n well i'r Rheolau Sefydlog, felly bydd angen i'r Pwyllgor Busnes eu hystyried maes o law.

Trefniadau o ran atebolrwydd

*Yr opsiwn a ffefrir: 'Pwyllgor y Llywydd'*

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi pwysleisio ei fod yn ffafrio bod yn atebol i bwyllgor a gaiff ei gadeirio gan 'gynrychiolydd nad yw'n perthyn i blaid' sy'n wleidyddol ddiduedd (h.y. y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd).

Rwyf finnau o'r un farn, ac rwy'n rhagweld y byddai'r 'Pwyllgor y Llywydd' newydd hwn yn cyfarfod ddwywaith neu deirgwaith y flwyddyn, ac y byddai ganddo aelodaeth eang a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau gwleidyddol llai yn y Cynulliad.

Yn dilyn ein trafodaeth yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 7 Mai, rwyf o'r farn y dylai'r gofyniad am bwyllgor o'r fath, a'r egwyddorion y byddai ei gyfansoddiad i gael ei benderfynu ar eu sail, o leiaf, gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy ddefnyddio Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i ddiwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Er enghraifft, byddai'n briodol i ddeddfwriaeth ymgorffori'r egwyddor y dylai'r aelodaeth adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd, gydbwysedd y grwpiau gwleidyddol y mae Aelodau'n perthyn iddynt.

Byddai'n well pe gellid gadael unrhyw ofynion pellach o ran aelodaeth, er enghraifft, a ddylai Pwyllgor y Llywydd gynnwys rhai aelodau ex-officio, fel cadeiryddion perthnasol y pwyllgorau, i gael eu penderfynu gan y Cynulliad yn y Rheolau Sefydlog.

Ni fyddai sefydlu 'Pwyllgor y Llywydd', wrth gwrs, yn atal pwyllgorau eraill y Cynulliad rhag craffu ar y Comisiwn Etholiadol ynghylch unrhyw faterion penodol sydd o fewn eu cylch gwaith.

*Yr opsiwn arall: Comisiwn y Cynulliad*

Dewis arall i sefydlu 'Pwyllgor y Llywydd' fyddai i'r Comisiwn Etholiadol fod yn atebol i Gomisiwn y Cynulliad. Nid yw o fewn rôl Comisiwn y Cynulliad ar hyn o bryd, fodd bynnag, i ddwyn sefydliadau allanol i gyfrif. Am y rheswm hwnnw, sefydlu pwyllgor ar wahân i ymgymryd â'r swyddogaeth hon yw'r opsiwn rwy'n ei ffafrio.

Trefniadau o ran ariannu

Ar hyn o bryd, mae Trysorlys y DU drwy Bwyllgor y Llefarydd yn talu am waith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Er mwyn galluogi'r Cynulliad i fod yn gyfrifol am ariannu gwaith y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, rwy'n rhagweld y byddai darpariaeth ar gyfer trefniadau cyllidebau lefel uchel a threfniadau archwilio yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol (eto drwy ddiwygiadau i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000).

*Ariannu drwy gyllideb Comisiwn y Cynulliad*

Un opsiwn fyddai, y caiff y Comisiwn Etholiadol ei ariannu fel rhan o gyllideb Comisiwn y Cynulliad (y creffir arni gan y Pwyllgor Cyllid ac y cytunir arni gan y Cynulliad yn ôl y broses arferol). Deallaf y byddai'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r dull disgwyliedig o ymdrin â'r mater hwn yn yr Alban.

Fodd bynnag, os sefydlir 'Pwyllgor y Llywydd' ar wahân, rhan o'i rôl fyddai craffu ar gyllideb y Comisiwn Etholiadol. Pe bai cyllideb y Comisiwn Etholiadol wedi'i chynnwys yng nghyllideb Comisiwn y Cynulliad, gallai hynny arwain at orgyffwrdd â rôl y Pwyllgor Cyllid o ran craffu ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad, a allai arwain at drefniadau cyllidebu, adrodd a threfniadau archwilio cymhleth, a diffyg eglurder posibl ynghylch y corff sy'n bennaf cyfrifol am graffu ar y Comisiwn Etholiadol.

*Yr opsiwn a ffefrir: ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru*

O ganlyniad, fy newis gorau yw bod y Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, mewn modd tebyg i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i daliadau gael eu gwneud o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff ar wahân i'r rhai a nodir yn isadran 124(3) os ydynt at ddibenion "gwariant sy'n daladwy yn unol â deddfiad

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

perthnasol". Mae "deddfiad perthnasol" yn cyfrif fel deddfiad sy'n darparu ar gyfer taliad o Gronfa Gyfunol Cymru.

O dan yr opsiwn hwn, 'Pwyllgor y Llywydd' a fyddai'n craffu ar gyllideb y Comisiwn Etholiadol a'i adroddiad archwilio, ac ni fyddai dim gorgyffwrdd â rôl y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chyllideb Comisiwn y Cynulliad.

Mae fy swyddogion yn edrych yn fanylach ar oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol yr opsiwn hwn gyda Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Trefniadau rhyngsefydliadol

O ystyried y cymhlethdodau o gadw un corff yn y DU a ariennir ar wahân gan y Cynulliad, gan Senedd yr Alban a chan Bwyllgor y Llefarydd, byddai'n bwysig bod y darpariaethau deddfwriaethol yn cael eu hategu gan gyd-ddealltwriaeth rhwng y tair deddfwrfa a'r Comisiwn Etholiadol ar gyfrifoldebau pob un o ran y trefniadau ariannu a dosraniad costau'r Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â materion datganoledig.

Rwy'n ymwybodol bod y Cwnsler Cyffredinol hefyd wedi ymrwymo i ysgrifennu atoch i nodi safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion hyn. Rwy'n hyderus bod gennym farn debyg yn gyffredinol ac y byddaf yn parhau i weithio gydag ef i sicrhau bod y gwelliannau a gyflwynir yn arwain at gynigion deddfwriaethol clir ac effeithiol a fydd yn denu cefnogaeth mwyafrif helaeth o Aelodau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd